



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Dyddiad y cyfarfod – 10.9.16

Amser – 9.00yb

Lleoliad – ystafell ddosbarth Mrs Llwyd, 6LI

Presennol

Gethin Owen-Hughes,
Owain Jobbins, Catrin Haf,
Nel Evans, Alun Roberts,
Magi Rowlands, Sami Prysor,
Owen Jac Roberts, Anwen Whitehead,
Mrs Llwyd, Mrs Pridmore

Agenda

1. Croesawu aelodau newydd y Cyngor Ysgol

Croesawodd Mrs Llwyd a Mrs Pridmore aelodau newydd y Cyngor Ysgol am y flwyddyn ysgol 2016-2017.

2. Absenoldebau

Nodwyd fod Lucy o ddsbarth 6E yn absennol o'r cyfarfod heddiw.

3. Cyflwyno rôl y Cyngor Ysgol

Soniodd Mrs Llwyd yn fras am rôl y Cyngor Ysgol a'r hyn fydd disgwyl i'r aelodau wneud yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd yn arbennig at:

- yr angen i drafod a holi am syniadau'n gyson ymysg disgyblion eu dosbarthiadau;
- annog cyd-ddisgyblion i ddefnyddio'r Blwch Syniadau wrth swyddfa Mr Williams er mwyn rhannu syniadau am welliannau posibl i'r ysgol;
- siarad mewn cyfarfodydd gyda Mr Williams a Llywodraethwyr yr ysgol, a siarad yn y Gwasanaeth ysgol gyfan;
- rhaeadru syniadau sy'n dod gerbron y Cyngor Ysgol i'r Pwyllgorau Disgyblion priodol.

4. Ethol Swyddogion Blwyddyn 6 o'r Cyngor Ysgol

Gan fod Lucy yn absennol o'r cyfarfod heddiw, penderfynwyd y byddai angen cynnal cyfarfod byr arall yr wythnos nesaf er mwyn ethol swyddogion Blwyddyn 6 o'r Cyngor Ysgol. Bydd Mrs Llwyd yn hysbysu'r holl aelodau o ddyddiad y cyfarfod.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

5. Unrhyw faterion eraill

Gofynnodd Mrs Llwyd os oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, ond doedd dim.

Diolchodd Mrs Pridmore i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

Cyfarfod yn gorffen – 9:30yb